Brian Steidle

Dywedodd ei farn ar yr hyn a welodd yn Darfur

Rhwng 1999 a 2003 roedd Brian Steidle yn swyddog (Capten) gyda Morluoedd America. Ar ôl i'w gyfnod o wasanaethu ddod i ben gwnaeth gais am swydd fel monitor yn yr Unol Daleithiau fel rhan o genhadaeth heddwch Undeb Affrica yn Sudan, Affrica. Mae Undeb Affrica yn gyfystyr â'r Undeb Ewropeaidd yn Affrica. Bu degawdau o ryfela yn y Swdan rhwng y bobl a oedd yn byw yn y gogledd a'r bobl a oedd yn byw yn y de. Gwnaed cytundeb i roi'r gorau i'r ymladd ac anfonwyd sefydliadau a swyddogion rhyngwladol i'r Swdan er mwyn sicrhau bod y ddwy ochr yn cadw at y cytundeb hwn.

Brian yn Darfur. Llun trwy garedigrwydd Gretchen Steidle Wallace, trwy Gyhoeddwyr PublicAffairs

Y Swdan yw'r wlad fwyaf yn Affrica ac mae'r boblogaeth ar wasgar. Mae ardaloedd eang yng ngogledd y wlad yn anialwch gyda chymunedau ffermio ar wasgar ac ambell ddinas yma a thraw. Lleolir y Swdan yn rhan uchaf Affrica, ac mae'r afon Nîl yn rhedeg o Dde Swdan, trwy'r gogledd i fyny i'r Aifft. Rhaid cystadlu am adnoddau naturiol fel dŵr a thir ffrwythlon.

Roedd Steidle yn credu bod ei swydd yn hawdd yn y Swdan. Roedd ganddo gyfrifoldeb am dîm bach o dri o bobl a oedd yn monitro bywydau'r bobla oedd yn byw ym Mynyddoedd Nuba ac yn adrodd nôl amdanynt. Roedd Mynyddoedd Nuba yn rhan Ddeheuol y Swdan yn gymharol heddychlon. Roedd tîm Steidle yn rhan o genhadaeth ar y cyd o America, Canada a 12 o wledydd Ewropeaidd.

Ar ôl saith mis cafodd Steidle ddyrchafiad. Ym mis Medi 2004 cafodd ei anfon i Darfur, ardal fawr yng ngorllewin y Swdan. Dim ond 27 oed ydoedd ac er ei fod yn gyn-filwr nid oedd dim wedi ei baratoi ar gyfer yr hyn a oedd yn digwydd yno. Un o'r prif resymau dros y rhyfel rhwng de a gogledd y Swdan oedd adnoddau naturiol, ond roedd gwrthdaro ethnig yn amlwg hefyd. Roedd rhyfela rhwng yr Arabiaid yn y gogledd a'r Affricanwyr du yn y de. Yn y

gogledd roedd gwrthdaro hefyd rhwng y Mwslimiaid Arabaidd a gefnogwyd gan lywodraeth Swdan a'r Mwslimiaid Affricanaidd du.

'Cefais fy synnu'n wirioneddol gan yr hyn a welais [yn Darfur], oherwydd doedd neb yn gwybod amdano. Dim hyd yn oed ni, yn yr un wlad, 300 cilomedr i ffwrdd.' Gwelodd Steidle blant yn cael eu lladd, cyflafan, a phentrefi yn cael eu difrodi, a'r peth gwaethaf oedd nad oedd yn gallu gwneud dim i atal y sefyllfa. Ei rôl oedd goruchwylio - roedd yn gyfrifol am gofnodi'r hyn a oedd yn digwydd, ac nid oedd hawl ganddo i ymyrryd. Yn ogystal â'r nodiadau a wnaeth, penderfynodd Steidle gymryd lluniau. Casglodd nifer o luniau a oedd yn cofnodi'r erchyllterau, ychydig oriau neu ddyddiau ar ôl iddynt ddigwydd. Yn ei nodiadau, nododd iddo weld milwyr a gefnogwyd gan lywodraeth y Swdan yn gadael y dinasoedd mawr neu safleoedd mewn gwisg arfog gydag arfau a fyddai'n cael eu defnyddio i ymosod ar bobl ddiniwed o bob oedran. Mae'ncofio nad oedd milwyr yr Undeb Affricanaidd a'i benaethiaid a oedd â chyfrifoldeb dros y genhadaeth ryngwladol, wedi gweithredu i atal yr ymosodiadau na helpu'r rhai a gafodd eu lladd, eu hanafu neu eu dadleoli fel ffoaduriaid. Yn hytrach, bu'n rhaid i'r grwpiau cymorth yn yr ardal geisio gwneud rhywbeth ar ôl y digwyddiad.

Ar ôl treulio cyfnod o 13 mis yn y Swdan, daeth contract Steidle i ben a phenderfynodd ddychwelyd i'r Unol Dalieithiau. 'Roeddwn i am anghofio amdano, mynd i guddio yn y goedwig. Roeddwn yn meddwl y byddwn yn gwylio hwn ar CNN neu ar y BBC, ond doedd dim sôn amdano. Felly dyna pryd y meddyliais, iawn, mae angen rhannu'r profiad hwn.' Casglodd Steidle dros 1,000 o luniau a datganiadau tystion. Penderfynodd ei fod yn bryd rhannu profiadau - **Dweud eich dweud, Dweud eich barn**. Aeth i siarad â newyddiadurwyr a gwleidyddion.

'Ers i mi adael Darfur..., rydw i wedi ceisio siarad am yr amodau yno, drwy gynadleddau i'r wasg, cyfweliadau papurau newyddion a thrwy dystiolaeth gyngresol, yn y gobaith bydd y gymuned ryngwladol yn ymyrryd yn fwy egnïol yn hytrach na gwylio'r erchyllterau'n datblygu.'

Gyda chymorth ei chwaer, ysgrifennodd lyfr am yr hyn a welodd gan ddefnyddio'r lluniau a gymerodd. Enw'r llyfr oedd *The Devil Came on Horseback*, yn seiliedig ar y grwpiau arfog neu'r milwyr a laddodd pobl. Yn aml, byddai'r grwpiau arfog hyn yn ymosod ar gefn ceffylau.

Llwyddodd Steidle ledaenu'r gair a sicrhau bod mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'r sefyllfa yn Dafur. Bu'n lobïo llywodraeth yr Unol Daleithiau ac yn y pen draw gorfodwyd i'r Cenhedloedd Unedig weithredu a chymryd camau gan gynnwys camau yn erbyn llywodraeth y Swdan. Ym mis Gorffennaf 2010, cafodd llywydd y Swdan, Omar al-Bashir, ei gyhuddo gan y Gymdeithas Ryngwladol o oruchwylio achosion o hil-laddiad Darfur (tri achos o hil-laddiad yn Darfur gan y Llys Troseddau Rhyngwladol). Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw ymdrech i'w

arestio ac mae'n parhau i fod yn llywydd ar y wlad. Mae dros 300,000 o bobl wedi cael eu lladd yn Darfur ac mae cannoedd ar filoedd bellach yn ddigartref.

Mae llyfr Steidle wedi cael ei addasu yn ffilm ac mae'n parhau i siarad am ei brofiadau.

Ym mis Gorffennaf, daeth De Sudan yn wlad yn ei rhinwedd ei hun ac mae gobaith y bydd hyn yn dod â'r ymladd i ben, fodd bynnag mae adroddiadau'n dangos bod y trais yn parhau yn Darfur.